



# Polisi Rheoli Data Ymchwil

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Polisi Grŵp ar Reoli Data Ymchwil

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
2. Pwrpas .....	2
3. Cwmpas .....	3
4. Polisi .....	4
5. Monitro.....	8
6. Polisi Tynnu Ymaith.....	8
7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill .....	9
8. Goblygiadau o ran Adnoddau.....	9
9. Aseiad Effaith .....	10
10. Rheoli fersiynau'r ddogfen.....	11

## 1. Cyflwyniad

Mae maes llywodraethu ymchwil a pholisi ac arfer da o ran ymchwil yn esblygu'n gyflym yn sgil datblygu galluoedd i ddarganfod a rhannu data ymchwil ar-lein. Hyrwyddir hyn ymhellach gan symudiad at gyhoeddiadau ymchwil mynediad agored a chyhoeddi electronig lle mae mynediad agored am ddim at ddata sy'n sail i honiadau ymchwil yn ddisgwyliad cynyddol. Mae polisi ymchwil ar lefelau Cenedlaethol a Rhyngwladol hefyd yn mynnu bod data ymchwil a gaffaelir trwy ddefnyddio arian cyhoeddus yn cael ei drin fel eiddo cyhoeddus, a'i fod ar gael yn agored ac mor eang â phosibl i ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd. Er enghraifft, mae Cynghorau Ymchwil y DU (RCUK), wedi cytuno ar set o egwyddorion cyffredin ar gyfer polisi data ymchwil (<http://www.rcuk.ac.uk/research/datapolicy/>) sydd, yn fyr, yn datgan y canlynol:

- Mae data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn eiddo i'r cyhoedd, ac wedi'u llunio er budd y cyhoedd. Dylid gwneud y rhain ar gael yn agored gyda chyn lleied o gyfyngu â phosibl mewn modd amserol a chyfrifol nad yw'n niweidio eiddo deallusol;
- Dylai data sydd â gwerth hirdymor cydnabyddedig gael ei gadw a pharhau'n hygyrch a defnyddiadwy ar gyfer ymchwil yn y dyfodol;
- Dylai canlyniadau cyhoeddedig bob amser gynnwys gwybodaeth ar sut i weld y data ategol;
- Dylid cofnodi digon o fetadata a'u gwneud ar gael yn agored i alluogi ymchwilwyr eraill i ddeall yr ymchwil ac i alluogi aildefnyddio data posibl;
- Dylai polisiâu ac arferion sefydliadau ymchwil sicrhau bod cyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol perthnasol ar ryddhau data ymchwil yn cael eu hystyried ar bob cam o'r broses ymchwil er mwyn sicrhau nad yw rhyddhau data yn amhriodol yn niweidio'r broses ymchwil.

Er bod y prif gyfrifoldeb o reoli data ymchwil yn dda yn gorwedd gydag ymchwilwyr unigol, mae gan y Brifysgol bellach gyfrifoldeb sefydliadol clir i sicrhau arfer da ac i fabwysiadu dull systematig o reoli a chadw data ymchwil. Mae cyllidwyr ymchwil yn gwneud hyn yn gynyddol yn amod ar gyfer cymorth ariannol.

## 2. Pwrpas

**2.1** Mae'r polisi hwn yn diffinio'r cyfrifoldebau ar lefel unigol a sefydliadol a ddylai arwain gwaith y rhai sy'n ymwneud â chasglu, curadu, storio a chynnal a chadw data ymchwil a ariennir. Bydd y polisi hwn yn sicrhau bod data ymchwil a gynhyrchir gan ei staff yn cael eu rheoli i'r safonau uchaf ar hyd cylch oes y data ymchwil. Bydd hyn yn sicrhau, pan fo angen, fod data ymchwil manwl gywir ac adferadwy ar gael i wirio ac amddiffyn y broses ymchwil a'i chanlyniadau. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd deddfwriaeth yn y maes hwn yn cynnwys, ymhlith eraill, Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998 a ddiwygir o bryd i'w gilydd.

Bydd y polisi hefyd yn sicrhau bod y data ymchwil a gynhyrchir gan y Brifysgol trwy brosiectau a ariennir yn cael eu storio'n ddiogel ac ar gael i ymchwilwyr ar hyd cyfnod eu hymchwil, yn ogystal â bod ar gael er mwyn cynnal ymchwil ac addysgu yn y tymor hir, a'u defnyddio'n ehangach er lles y cyhoedd gan unigolion, llywodraeth, busnesau a sefydliadau eraill, wrth i brosiect datblygu ac wedi i ganlyniadau ymchwil gael eu cyhoeddi.

**2.2** Mae'r Polisi hwn yn sicrhau cyflawni rhwymedigaethau'r Brifysgol yn ôl datganiadau polisi a chodau ymarfer data-gysylltiedig cyllidwyr ymchwil, i sicrhau bod systemau

cadarn yn eu lle i hyrwyddo arfer gorau, yn cynnwys trwy bolisi clir, arweiniad, goruchwyliaeth, hyfforddiant a chefnogaeth wrth reoli data ymchwil.

### 3. Cwmpas

Mae'r polisi'n cwmpasu'r holl ymchwil a datblygu arbrofol a ariennir a'r data ymchwil cysylltiedig a gynhyrchir gan ymchwilwyr y Brifysgol.

**3.1** Diffinnir ymchwil a datblygu arbrofol (YaD) yn unol â'r diffiniad yn llawlyfr Frascati, fel 'gwaith creadigol a gyflawnir mewn modd systematig er mwyn cynyddu'r stôr o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am ddyn, diwylliant a chymdeithas, a'r defnydd o'r stôr hwn o wybodaeth i lunio cymwysiadu newydd.' Mae'r term YaD yn cwmpasu tri gweithgarwch: ymchwil sylfaenol, ymchwil gymhwysol a datblygu arbrofol.

- Mae **ymchwil sylfaenol** yn waith arbrofol neu ddamcaniaethol a wneir yn bennaf er mwyn caffael gwybodaeth newydd am gynsail sylfaenol ffenomena a ffeithiau canfyddadwy, heb unrhyw gymhwysiad neu ddefnydd penodol mewn golwg.
- Mae **ymchwil gymhwysol** hefyd yn ymchwiliad gwreiddiol a wneir er mwyn caffael gwybodaeth newydd. Fodd bynnag, mae wedi'i gyfeirio'n bennaf at nod neu amcan ymarferol penodol.
- Mae **datblygu arbrofol** yn waith systematig, sy'n gwneud defnydd o wybodaeth sy'n bod yn barod a gafwyd o ymchwil a/neu brofiad ymarferol, sydd wedi'i anelu at gynhyrchu deunyddiau, cynnyrch neu ddyfeisiau newydd, at osod prosesau, systemau a gwasanaethau newydd, neu at wella'n sylweddol y rhai sydd eisoes wedi'u cynhyrchu neu'u gosod. Mae YaD yn cwmpasu YaD ffurfiol mewn unedau YaD ac YaD anffurfiol neu achlysurol mewn unedau eraill.

**3.2** Diffinnir data ymchwil fel yr hyn a gesglir, a arsylwir, neu a grëir i ddibenion dadansoddi er mwyn cynhyrchu canlyniadau ymchwil gwreiddiol. Y data ymchwil yw'r wybodaeth a gofnodir, beth bynnag yw eu ffurf neu eu cyfrwng, sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi neu gadarnhau arsylwadau, canfyddiadau neu gynhyrchion prosiect ymchwil. Yn ymarferol, gall natur data ymchwil amrywio'n eang gan ddibynnu ar y ddisgyblaeth. Gall fod yn destunol, rhifiadol, ansoddol, meintiol, terfynol, rhagarweiniol, ffisegol, digidol neu brintiedig. Nid yw'n cynnwys dogfennau gweinyddu (megis disgrifiadau swyddi, e-byst neu adroddiadau ariannol) a deunyddiau addysgu. Ceir data ymchwil mewn nifer fawr o fformatau, yn cynnwys: dogfennau Word, PDFs, taenlenni, CDs, DVDs, llyfrau labordy wedi'u sganio, arolygon ar-lein, recordiadau digidol, cronfeydd data neu feddalwedd cyfrifiadurol. Gall gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- Mesuriadau offer
- Arsylwadau arbrofol
- Delweddau llonydd, fideo a sain
- Dogfennau testun, taenlenni, cronfeydd data
- Llawysgrifau, cofnodion hanesyddol a deunyddiau archif
- Data meintiol (e.e. data arolygon cartrefi)
- Canlyniadau arolygon a thrawsgrifiadau cyfweiliadau
- Data, modelau a meddalwedd efelychu
- Sleidiau, arteffactau, sbesimenau, samplau

**3.3** Diffinnir ymchwilwyr yn aelodau o'r Brifysgol, yn cynnwys staff a myfyrwyr doethurol, cymrodyr ymchwil anrhydeddus a gwadd, a'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r Brifysgol ond sydd yn cynnal ymchwil ar dir y Brifysgol neu gan ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau'r Brifysgol.

**3.4** Diffinnir ymchwil a ariennir yn ymchwil a gefnogir gan grant ymchwil allanol.

#### **4. Polisi**

Mae'r Brifysgol yn diffinio'r egwyddorion canlynol i'w dilyn gan ymchwilwyr er mwyn sicrhau y rheolir data ymchwil yn unol â rhwymedigaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol, contractiol a moesegol a rhwymedigaethau eraill.

**4.1** Yn ystod unrhyw brosiect neu raglen ymchwil, cyfrifoldeb y Prif Ymchwilwyr (PY) yn bennaf yw rheoli data ymchwil trwy gynllun rheoli data ymchwil.

**4.2** Mae angen i ymchwilwyr, cyfadrannau, unedau cymorth a lle bo hynny'n briodol, gydweithredwyr allanol, weithio mewn partneriaeth i weithredu arfer da a bodloni gofynion cyllidwyr ymchwil, a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mewn perthynas â hyn, bydd y Brifysgol yn darparu hyfforddiant, cymorth a chynghor o ran rheoli data ymchwil a chynlluniau rheoli data ymchwil. Bydd y Brifysgol hefyd yn cynghori ynghylch ac yn darparu'r mecanweithiau a'r gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer storio, creu copi wrth gefn, cofrestru, adneuo a chadw asedau data ymchwil i gefnogi mynediad cyfredol ac yn y dyfodol, yn ystod ac ar ôl cwblhau prosiectau ymchwil. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir yn y cynlluniau rheoli data ymchwil (gweler pwynt 4.4) gan y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch, y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu a Thechnoleg a Systemau Gwybodaeth, ac Unedau eraill yn ôl yr angen, i ddangos bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau allanol, ac i adnabod meysydd lle mae angen rhagor o gymorth ymchwil. Bydd hyn yn rhoi sylw i ffactorau megis cynghor ac arweiniad, hyfforddiant ac isadeiledd technegol.

**4.3** Rhaid creu, cynnal a rhannu data ymchwil yn unol â gofynion contractiol, deddfwriaethol, rheolaethol a moesegol a gofynion perthnasol eraill. Disgwylir i ymchwilwyr gynnal ymwybyddiaeth o'r gofynion a'r rhwymedigaethau cyfredol a osodir gan y Brifysgol, a lle bo hynny'n berthnasol, ofynion noddwyr ymchwil, partneriaid ymchwil, cyflenwyr data o ffynonellau allanol ac unrhyw gyrrff perthnasol eraill, a mabwysiadu arferion sy'n briodol ac sy'n cydymffurfio ag arfer gorau o fewn y maes pwnc. Dylai'r rhain gynnwys cymhwyso mesurau priodol i ddiogelu cyfranogwyr ymchwil ar hyd cylch oes yr ymchwil ac ystod o ofynion contractiol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a moesegol ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Yn gyffredinol rhaid i'r arferion hyn sicrhau bod data a chofnodion ymchwil:

- Yn fanwl gywir, yn gyflawn, yn ddilys ac yn ddibynadwy;
- Yn adnabyddadwy, adferadwy a hygyrch;
- Wedi'u cadw mewn modd diogel;
- Wedi'u cadw mewn modd sy'n cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a, lle bo'n berthnasol, bod gofynion cyrrff cyllido a phrotocolau penodol i'r prosiect wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol;
- Ar gael i eraill yn unol ag egwyddorion moesegol priodol ac egwyddorion rhannu data a mynediad agored;
- Yn gymesur â buddiannau cyfiawn a diogelwch cyfranogwyr dynol mewn data ymchwil.

**4.4** Rhaid i'r holl gynigion ymchwil newydd ar gyfer ymchwil a ariennir gynnwys cynlluniau rheoli data ymchwil sy'n rhoi sylw clir i gipio a rheoli data, integredd a chyfrinachedd data, a chadw, rhannu a chyhoeddi data. Lle bo'n briodol, bydd cynlluniau rheoli data ymchwil yn defnyddio templedi cyllidwyr ymchwil neu offeryn DMPonline y Ganolfan Curadu Digidol (<https://dmponline.dcc.ac.uk/>) i sicrhau bod data ymchwil ar gael i'w weld a'i aildddefnyddio lle bo'n briodol ac yn unol â'r dulliau diogelu gofynnol. Rhaid i gynlluniau

rheoli data ymchwil gael eu cymeradwyo gan y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch cyn gwneud cais am arian grant.

- 4.5** Rhaid storio data ymchwil mewn amgylchedd a reolir sy'n diogelu rhag colli a llygru data, mynediad heb awdurdod ac addasu heb awdurdod, ac sy'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a chontractiol a rhwymedigaethau eraill perthnasol am y cyfnod y mae angen eu cadw. Mewn amgylchiadau lle nad oes cadwrfa sefydliadol ar gael (megis gweithio o bell neu yn ystod gwaith maes), dylai'r ymchwilydd gymryd camau i gynnal integredd y data, a sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn eu lle i atal mynediad heb awdurdod. Rhaid i'r data ymchwil gael ei drosglwyddo i amgylchedd storio a reolir cyn gynted â phosibl.
- 4.6** Dylai data ymchwil a grëir neu a gipir gan ymchwilwyr y Brifysgol trwy brosiectau a ariennir gael eu cynnig i gadwrfa ddata briodol, neu un a nodwyd gan y Cyllidwr, ac eithrio mewn amgylchiadau a fyddai'n torri Hawliau Eiddo Deallusol, rhwymedigaethau moesegol neu gyfrinachedd neu rwymedigaethau eraill. Dylai'r adneuo ddigwydd ar ôl cwblhau'r ymchwil neu ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, pa un bynnag yw'r cynharaf. Dylid cadw'r data am gyfnod sy'n bodloni gofynion y cyllidwr perthnasol (gweler 4.14). Bydd y Brifysgol hefyd yn darparu Cadwrfa Ddata y gellid ei defnyddio i reoli data ymchwil a ariennir dros amser, mewn achosion pan nad yw'n bosibl eu hadneuo mewn cadwrfa allanol.
- 4.7** Pan mae set ddata'n cael ei rhoi mewn cadwrfa ddata allanol, rhaid hefyd creu record o'r set ddata o fewn cadwrfa ddata ymchwil y Drindod Dewi Sant. Bydd cofnod y Drindod Dewi Sant o'r set ddata yn rhoi manylion ble gellir gweld y set ddata. Ni ddylid dyblygu'r set ddata ei hun yng nghadwrfa ddata ymchwil y Drindod Dewi Sant.
- 4.8** Dylai cyhoeddiadau ymchwil sydd ag ymchwil a ariennir yn sail iddynt gynnwys datganiad byr yn disgrifio sut ac ar ba delerau y gellir gweld unrhyw ddata ymchwil ategol, yn ddelfrydol trwy gyfeiriad ffurfiol. Felly dylai ymchwilwyr gyhoeddi data ymchwil gyda chyhoeddwr (neu gadwrfeydd digidol cyfrifol) yn unig, sy'n darparu gwybodaeth barhaus am ddata, ar ffurf dynodydd parhaus. Y safon arferol i sicrhau dynodi parhaus yw neilltuo Dynodydd Gwrthrych Digidol (DOI) i'r set ddata.
- 4.9** Ar y cyd â data ymchwil, dylid cyflwyno dogfennaeth a metadata o ansawdd i roi gwybodaeth hanfodol i ddefnyddwyr eilaidd allu deall y data'n annibynnol a gallu eu canfod, a chaniatáu ailddefnydd gwyddonol. Dylai dogfennaeth ddisgrifio'r canlynol o leiaf: tarddiad y data, y gwaith maes a'r dulliau casglu data, y prosesu a/neu reolaeth yr ymchwilydd o'r data. Dylai eitemau data unigol megis newidynnau neu drawsgrifiadau gael eu labelu a'u disgrifio'n glir.
- 4.10** Er mwyn sicrhau bod timau ymchwil yn cael eu cydnabod yn briodol am yr ymdrech dan sylw wrth gasglu a dadansoddi data, gall y sawl sy'n ymgymryd â gwaith a ariennir, os caniateir hynny yn nhelerau'r cytundeb grant, fod â hawl i gyfnod cyfyngedig o 'ddefnydd breintiedig' o'r data maent wedi'u casglu er mwyn eu galluogi i gyhoeddi canlyniadau eu hymchwil. Ni fydd y cyfnod hwn o ddefnydd breintiedig yn atal cyhoeddi metadata cyn gynted â phosibl. Os oes angen oedi cyn lledaenu data sydd wedi'u hadneuo er mwyn caniatáu i ddeiliaid grant gyhoeddi eu canfyddiadau ymchwil, gellir gosod cyfnod embargo ar y data. Yn gyffredinol ni ddylai'r cyfnod embargo hwn fod yn hwy na 12 mis o ddiwedd y grant, ond gall fod yn hirach gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Ar ddiwedd y cyfnod cyfyngu rhaid i'r data fod ar gael drwy fynediad agored. Mewn achosion lle defnyddir Canolfannau Data Cenedlaethol, gwneir y trefniadau hyn yn uniongyrchol gyda'u swyddogion. Os adneuir data yng nghadwrfa ddata y Drindod Dewi Sant, diffinnir y cyfnod embargo adeg derbyn y data.

- 4.11** Bydd data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus nas crëwyd ar ffurf ddigidol yn cael eu storio mewn modd a fydd yn hwyluso eu rhannu os derbynnir cais dilys i weld y data. Y disgwyliad yn hyn o beth yw bod y crewyr yn trosi'r data hwn i ffurf ddigidol ac yn ei storio mewn modd amserol. Manylir y broses sydd ei hangen ar gyfer gweld ac, os oes angen, trosi'r data yn y cynllun rheoli data ymchwil. Mewn achosion lle nad yw'n bosibl trosi i fformat digidol, dylid argraffu copi o gofnod data y Drindod Dewi Sant a'i storio gyda'r set ddata ffisegol.
- 4.12** Ym mhob achos, ategir data ymchwil a gynnigir i gadw'rfa gan Gynllun Rheoli Data Ymchwil. Rhaid i'r cynllun roi manylion am y modd y caiff y data ymchwil eu curadu (e.e. y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dewis data i'w hadneuo, yn hytrach na'r set ddata gyfan), y modd y cedwir y data a ddewiswyd ar gyfer y cyfnod storio llawn, yn unol â Pholisi Rheoli Cofnodion y Drindod Dewi Sant a rhwymedigaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu gcontractiol perthnasol eraill. Lle bo angen, dylid trefnu bod dulliau diogelu priodol yn eu lle i ddiogelu cyfranogwyr a sicrhau bod amodau gweld yn cael eu bodloni (e.e. gwneud y data'n ddiennw, cyfrineiriau mynediad, cynnwys datganiad hawliau) yn unol â Chod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Brifysgol.
- 4.13** Y brif ddeddfwriaeth mewn perthynas â 4.12 yw'r Ddeddf Diogelu Data (1998) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod data sy'n deillio o ymchwil gyda phobl yn cael ei wneud yn ddiennw, fel nad oes modd adnabod unigolion, sefydliadau na busnesau, cyn y gellir ei rannu gydag ymchwilwyr eraill neu'i archifo. Mae'r Ddeddf yn berthnasol yn unig i ddata personol, data sensitif personol a chyfrinachol, ac nid i'r holl ddata ymchwil yn gyffredinol, nac i ddata a wnaed yn ddiennw. Ceir canllawiau ar hyn yn Nhabl 1. Gellir datgelu pwy yw rhywun o: a) dynodyddion uniongyrchol megis enwau, cyfeiriadau, gwybodaeth cod post, rhifau ffôn neu luniau; b) dynodyddion anuniongyrchol a allai, o'u cysylltu â ffynonellau gwybodaeth eraill sydd ar gael yn gyhoeddus, ddynodi pwy yw rhywun, e.e. gwybodaeth am weithle, swydd neu werthoedd eithriadol nodweddiadol megis cyflog neu oed. Gellir darparu canllawiau ar ofynion y Ddeddf gan y Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch a Rheolydd Data'r Brifysgol. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar dudalennau gwe Rheoli Data Ymchwil y Brifysgol.

**Tabl 1. Diogelu Data.**

<b>Data personol</b>
Data personol yw data sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hynny neu o'r data hynny a gwybodaeth arall sydd ym meddiant y rheolydd data, neu sy'n debygol o ddod i'w feddiant. Mae'n cynnwys unrhyw farn a fynegir am yr unigolyn, ac unrhyw awgrym o fwriad y rheolydd data. Mae hyn yn cynnwys bwriad unrhyw berson arall o ran yr unigolyn (Deddf Diogelu Data 1998).
<b>Data cyfrinachol</b>
Data a roddir yn gyfrinachol neu ddata y cytunir i'w cadw'n gyfrinachol yw data cyfrinachol, h.y. cyfrinach rhwng dau barti nad yw ar gael yn gyhoeddus, fel gwybodaeth am fusnes, incwm, iechyd, manylion meddygol, a barn wleidyddol.
<b>Data personol sensitif</b>
Yn Neddf Diogelu Data 1998, diffinnir data personol sensitif fel data am hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, cred grefyddol neu gredoau eraill o'r fath, aelodaeth o undeb llafur, iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, trosedd a gyflawnwyd neu yr honnir iddi gael ei chyflawni, achos sy'n ymwneud â throsedd a gyflawnwyd (neu yr honnir iddi gael ei chyflawni), penderfyniad mewn achos o'r fath neu ddeddfryd unrhyw lys mewn achos o'r fath.



- 4.14** Dylid cadw data ymchwil sy'n deillio o brosiectau a ariennir, ac unrhyw gofnodion cysylltiedig cyhyd â'u bod o werth parhaus i'r ymchwilydd a'r gymuned ymchwil ehangach, a chyhyd ag a nodir gan y sawl sy'n cyllido'r ymchwil, cyfraith patentau, gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddiol eraill. Mae polisiau data a chanllawiau Cynghorau Ymchwil unigol a chyllidwyr eraill ar arfer ymchwil da yn darparu gofynion ychwanegol a dylid ystyried y rhain a nodi'r cyfnodau cadw ym mhob Cynllun Rheoli Data Ymchwil. Mewn llawer i achos, bydd ymchwilwyr yn penderfynu cadw data a chofnodion ymchwil am gyfnod hwy na'r isafswm a nodir. Os yw data a chofnodion ymchwil i'w dileu neu'u dinistrio, dylid gwneud hyn gyda golwg benodol ar gyfrinachedd a diogelwch.
- 4.15** Lle caniateir hynny, dylid cefnogi rheoli a rhannu data ymchwil trwy ddyrannu cyllid ymchwil. Dylai'r cyllid hwn geisio adfer costau unrhyw angen am guradu a lledaenu tymor hir sy'n galw am ddarparu adnoddau staff a systemau. Bydd Technoleg a Systemau Gwybodaeth yn darparu rhestr o'r costau cysylltiedig.
- 4.16** Ni ddylai hawliau a neilltuir i ddata ymchwil a ariennir gyfyngu'n ddiangen ar y dulliau o'u rheoli, eu rhannu neu'u defnyddio. Mae'r gallu i storio, rheoli, rhannu a defnyddio data ymchwil yn ddibynnol ar ddeall a neilltuo hawliau eiddo deallusol ar gychwyn y broses ymchwil. Dylai gwybodaeth am hawliau sy'n dynodi perchnogaeth a defnydd a ganiateir o ddata ymchwil fod yn glir a diamwys ac wedi'i chofnodi mewn ffurflenni cydsynio, contractau, a chytundebau partneriaeth neu gydweithio. Anogir ymchwilwyr i ddefnyddio trwydded sy'n galluogi i ddata ymchwil gael eu gweld a'u dadansoddi a'u haildefnyddio gan sawl parti, megis trwydded CC-BY. Dylai'r holl hawliau fod yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.
- 4.17** Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, ac yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhyrchir gan aelod o staff y Brifysgol, yn eiddo i'r Brifysgol ac fe gaiff ei gadw am gyfnod priodol yn unol â phwynt 4.14. Gall y cyfnod hwn fod yn hwy na chyfnod cyflogaeth aelod o staff yn y Brifysgol.
- 4.18** Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, ac yn unol â Pholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhyrchir gan fyfyrwr yn y Brifysgol, yn parhau'n eiddo deallusol y myfyrwr ac fe'i cedwir am gyfnod priodol o amser yn unol â phwynt 14.4.
- 4.19** Os yw ymchwil yn cael ei gefnogi gan gontract gyda'r Brifysgol, neu grant i'r Brifysgol, sy'n cynnwys darpariaethau penodol ynghylch perchnogaeth, cadw a gweld data, bydd darpariaethau'r cytundeb hwnnw'n cael blaenoriaeth.

## 5. Monitro

Bydd y Brifysgol yn adolygu cynnwys a gweithrediad y polisi hwn yn flynyddol. Cynhelir yr adolygiad cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw adolygiadau i'w cymeradwyo gan y Senedd / Cyngor erbyn Rhagfyr / Ionawr bob blwyddyn. Monitrir gweithrediad y Polisi gan y Grŵp Llywio Mynediad Agored. Bydd aelodaeth y Grŵp yn cynnwys un cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch (Cadeirydd); y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, Technoleg a Systemau Gwybodaeth a dau gynrychiolydd Cyfadran. Bydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil.

## 6. Polisi Tynnu Ymaith

Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau bod yr holl ddata a gyhoeddir yng nghadwrfa'r Drindod Dewi Sant yn cydymffurfio â Chyfraith Loegr a Chymru (Cyfraith Loegr). Fodd bynnag, pe bai unrhyw gyflogai, myfyriwr neu drydydd parti'n teimlo bod cynnwys penodol yn torri cyfraith Loegr neu hawliau'r Brifysgol mewn rhyw ffordd, bydd, drwy hysbysiad, yn adolygu statws cyfreithiol y deunydd perthnasol ac yn ei dynnu ymaith os gwelir bod y gŵyn yn ddilys. Dyma rai rhesymau dilys dros dynnu cynnwys o'r gadwrfa (ond nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):

- Torri hawliau eiddo deallusol, yn cynnwys hawlfraint;
- Torri hawliau moesol neu hawliau eraill a ddiogelir gan y gyfraith (er enghraifft, trin gwaith yn ddirmygus, enllib, diogelu data, preifatrwydd);
- Materion moesegol yn cynnwys llên-ladrad, ymchwil ffug, a'r methiant i gadw at ganllawiau moesegol;
- Materion diogelwch cenedlaethol.

I gofrestru cwyn, dylai'r achwynydd gysylltu â Chadeirydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost [researchdata@uwtsd.ac.uk](mailto:researchdata@uwtsd.ac.uk). Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Manylion cysylltu:
- Manylion yr eitem (teitl, awdur, URL, ac ati);
- Disgrifiad o'r rhesymau am y gŵyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth neu brawf.

Ar ôl i'r gŵyn ddod i law, bydd Cadeirydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored yn:

- Cydnabod bod y gŵyn wedi dod i law;
- Gwneud asesiad cychwynnol o ddilysrwydd y gŵyn;
- Tynnu'r eitem ymaith o olwg y cyhoedd dros dro os oes angen ymchwilio ymhellach.

Yn dilyn yr asesiad cychwynnol, os bernir bod cwyn yn annilys, ni chymerir camau pellach a hysbysir yr achwynydd o'r penderfyniad hwn. Caiff cwynion dilys eu hymchwilio gan Gadeirydd y Grŵp Llywio Mynediad Agored, awdur yr eitem dan sylw ac, os oes angen Uned Gwasanaethau Corfforaethol y Brifysgol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn gyflym ac wrth fodd yr achwynydd a'r awdur fel ei gilydd.

O ganlyniad i ymchwiliad, os bernir bod yr eitem dan sylw wedi torri agwedd ar gyfraith Loegr, caiff ei thynnu ymaith yn barhaol o'r gadwrfa. Bydd cofnod metadata hanesyddol o'r eitem a dynnwyd ymaith ynghyd â nodyn yn manylu'r rhesymau am ei thynnu ymaith yn parhau yn y gadwrfa ond ni fydd i'w weld gan y cyhoedd.

## 7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Dylid darllen y polisi hwn gan gyfeirio at y pholisïau canlynol a chodau ymarfer a ddiwygir o bryd i'w gilydd:

- Amserlen Cadw Cofnodion
- Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil
- Polisi Eiddo Deallusol
- Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisi Hawlfraint
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Rheoli Cofnodion
- Polisi Cyhoeddi Mynediad Agored

Deddfwriaeth sylfaenol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Deddf Hawliau Dynol 1998. Erthygl 8

## 8. Goblygiadau o ran Adnoddau

Goblygiad	Manylion
Cyllid	Mae costau blynyddol o £5574 ar gyfer cynnal cadwrfa EPrints eisoes wedi cael eu cyllido oddi mewn i gyllideb adrannol gyffredinol Technoleg a Systemau Gwybodaeth. Bydd gofynion storio ychwanegol ar gyfer data ymchwil ar brosiectau ariennir, a nodir yn y Cynllun Rheoli Data Ymchwil priodol, yn cael eu costio yn rhan o'r grant a'r cronfeydd hynny yn talu amdanynt.
Staff	Gellir gweithredu'r Polisi gan y staff cyfredol.
Asedau	Bydd unrhyw ofynion storio ychwanegol a chostau TG cysylltiedig, ar gyfer data ymchwil ar brosiectau a ariennir yn cael eu costio yn rhan o'r grant a'r cronfeydd hynny yn talu amdanynt.
Partneriaid	Mae'r polisi'n ddisgwyliad gan yr RCUK er mwyn cael mynediad at eu grantiau, ac mae'n dod yn ddisgwyliad gan CCAUC, yr UE ac asiantaethau cyllido eraill o ran darparu amgylchedd ymchwil o safon fyd-eang. Bydd y polisi'n dylanwadu'n gadarnhaol ar gydweithwyr ymchwil y mae angen iddynt gyfnewid data ar draws amrywiol lwyfannau ac sy'n galw am systemau effeithiol i storio, gweld a rhannu data'n ddiogel ar draws timau ymchwil aml-sefydliadol.
Graddfeydd amser	Mae'r polisi'n ofyniad gan yr RCUK er mwyn cael mynediad at eu grantiau a chaiff ei weithredu ar ôl cwblhau'r Cadwrfa Ddata Ymchwil ac adnoddau hyfforddi, a ddisgwyliar ym mis Rhagfyr 2015. Dylid gweithredu'r Polisi bryd hynny, neu yn fuan wedyn, ac yna cynhelir rhaglen datblygu staff. Caiff y Polisi ei

	fonitro a'i adolygu'n flynyddol.
Arweinyddiaeth	Yr Athro Mike Phillips

## 9. Asesiad Effaith

Goblygiad	A ystyriwyd effaith (Do/Naddo)	Effaith a Ddynodwyd
Cyfreithiol	Do	<p>Ymhlith y ddeddfwriaeth Sylfaenol y mae'r Polisi'n ymwneud ag ef mae'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000</li> <li>• Y Ddeddf Diogelu Data 1998</li> <li>• Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 Deddf Hawliau Dynol 1998. Erthygl 8</li> </ul> <p>Mae gan y Polisi ddarpariaeth hefyd yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol (yn cynnwys hawlfraint, cyfrinachau masnach a hawliau cronfeydd data).</p>
Cyfraniad at y Cynllun Strategol	Do	<p>Mae'r polisi'n cyfrannu at Strategaeth Ymchwil y Brifysgol drwy sicrhau bod ein gweithgarwch a'n deilliannau ymchwil yn dylanwadu ar sylfaen dystiolaeth polisiâu a ddatblygir yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y polisi'n cyfrannu at amgylchedd ymchwil y Brifysgol a'i gallu i greu incwm ymchwil.</p>
Dadansoddiad Risg	Do	<p>Mae rheoli data ymchwil yn hanfodol er mwyn llywodraethu ymchwil yn dda. Mae'r Polisi'n lleihau'r risg o gollu incwm drwy beidio â chydymffurfio â disgwyliadau asiantaethau cyllido; yn lleihau'r risg o golled neu lygredd wrth i ddata ymchwil gael eu storio mewn modd anniogel, gan eu trosglwyddo i ddarparwyr allanol ar gyfer archifo hirdymor, ac mae'n rheoli risgiau cyfreithiol a moesegol sy'n gysylltiedig â diogelwch, integredd a chyfrinachedd data.</p>
Cydraddoldeb	Do	<p>Bydd darparu hyfforddiant a chyfathrebu yn gysylltiedig â'r polisi hwn yn cymryd i ystyriaeth y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.</p>
Y Gymraeg	Do	<p>Wedi iddo gael ei gymeradwyo bydd y Polisi ar gael yn ddwyieithog. Bydd yr adnoddau gwe a fydd yn sail i weithredu'r polisi'n llwyddiannus ar gael yn ddwyieithog a bydd gan y gadwrfa ddata ryngwyneb dwyieithog.</p>
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	Do	<p>Trwy weithredu'r Polisi'n llwyddiannus caniateir i ddefnyddwyr storio, gweld a throsglwyddo'n electronig fel dull amgen i ddulliau llai cynaliadwy. Mae'r Polisi'n cydnabod bod data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus yn eiddo i'r cyhoedd, ac wedi'u llunio er budd y cyhoedd a bod mynediad cyhoeddus atynt yn dileu'r gwaith dyblygu costus sy'n gysylltiedig â chreu'r adnoddau.</p>
Cyfathrebu /	Do	<p>Bydd Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a</p>

Cyfryngau / Marchnata		Mentergarwch a'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn hyrwyddo ymwybyddiaeth fewnol o'r polisi a'i weithrediad trwy ddigwyddiadau datblygu staff, adnoddau ar y we a dulliau eraill o eiriolaeth. Bydd hyn yn sicrhau ymwybyddiaeth fewnol o ddaliadau data ymchwil a ariennir yn gyhoeddus, a bod gan ymchwilwyr a myfyrwyr ymchwil ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amgylchedd rheoleiddio. Bydd papurau ymchwil a gyhoeddir yn cynnwys datganiad byr yn disgrifio sut ac ar ba delerau y gellir gweld unrhyw ymchwil ategol tra bydd y gadwrfa ddata'n cael ei hyrwyddo i gynulleidfa allanol trwy Gyfathrebu Corfforaethol.
--------------------------	--	--

### Awdur(on) y polisi:

Dr. Matt Briggs. Swyddog Gweithredol Datblygu Ymchwil

### 10. Rheoli fersiynau'r ddogfen

Rhif fersiwn:	y	Rheswm am newid:	Awdur:	Dyddiad newid:
0.1		Cymeradwywyd y Polisi yn y Pwyllgor Ymchwil	MB	
0.2		Cywiriadau yn sgil prawfddarllen	CG	

**Statws Cyfredol y Polisi:** Cymeradwywyd

**Polisi'n berthnasol i'r:** Grŵp Sector Deuol (h.y. Y Drindod Dewi Sant AB ac AU)

**Dyddiad cadarnhau:** 27/01/2016

**Dyddiad yn effeithiol o:** 27/01/2016

**Dyddiad adolygu'r polisi:** 27/01/2017

**I'w gyhoeddi:** ar wefan Y Drindod Dewi Sant

